**CABINET - DYDD MAWRTH, 10 MEDI 2024**

COFNOD O GYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR FFURF HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DDYDD MAWRTH, 10 MEDI 2024 AM 14:30

Yn bresennol

Y Cynghorydd JC Spanswick – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| N Farr | HM Williams | P Davies | M J Evans |
| M Jones | | | |

Yn Bresennol yn Rhithiol

J Gebbie

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Kelly Watson | Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol - Gwasanaethau Democrataidd |
| Robin Davies | Rheolwr Grŵp -Strategaeth Fusnes a Pherfformiad |

Datganiadau o Fuddiant

Y Cynghorydd Hywel Williams - Personol - Wyrion yn cael trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol
Y Cynghorydd Neelo Farr -Rhagfarnus - Wyrion yn byw gyda'r Cynghorydd Farr ac yn cael trafnidiaeth am ddim

## 360. Adolygu Polisi Trafnidiaeth o'r Cartref i'r Ysgol

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc adroddiad oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i'r Polisi Trafnidiaeth o'r Cartref i'r Ysgol.<br><br>Eglurodd bod newidiadau sylweddol angen eu gwneud i'r Polisi Trafnidiaeth o'r Cartref i'r Ysgol yn dilyn penderfyniad Cabinet ar 23 Gorffennaf 2024. Roedd gofyn i'r Awdurdod Lleol gyhoeddi ei drefniadau polisi teithio dysgwyr erbyn Hydref 2024 ac felly, mae Polisi Trafnidiaeth o'r Cartref i'r Ysgol wedi ei ddrafftio a'i gynnwys yn Atodiad 1 oedd yn ymgorffori cynigion 1 - 4 fel y nodir yn yr adroddiad.<br><br>Gofynnodd Aelodau'r Cabinet am eglurhad ynghylch Deddf Cydraddoldeb 2010. Nodwyd, pe bai'n cael ei gymeradwyo, y byddai ysgolion Saesneg dan anfantais o'u cymharu ag ysgolion Cyfrwng Cymraeg<br><br>Nododd Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc bod Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb llawn wedi'i gynnal yng nghyfarfod diwethaf y Cabinet lle ystyriwyd polisi a bod ystyriaeth briodol gael ei rhoi.<br><br>Ychwanegodd Rheolwr y Grŵp Strategaeth Busnes a Pherfformiad at hyn gan nodi bod gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i hyrwyddo'r Iaith Gymraeg ac addysg Cyfrwng Cymraeg. Roedd yr un peth yn wir am ysgolion ffydd. Oherwydd nifer cyfyngedig y ddau gyfrwng, yn ogystal â'r gofyn i hyrwyddo'r rhain a sicrhau nad ydynt dan anfantais, mae mwy o bwyslais ar y rhain.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Yn dilyn trafod yr angen i gydymffurfio â'r ddyletswydd statudol, cytunodd y Cabinet i gymeradwyo'r polisi Trafnidiaeth o'r Cartref i'r Ysgol diwygiedig yn Atodiad 1 i'w weithredu o fis Medi 2025. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 10 Medi 2024 |

## 361. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Nid oedd unrhyw eitemau brys |

**CABINET - DYDD MAWRTH, 10 MEDI 2024**

| | |
|---|---|
| Dyddiad y Penderfyniad | 10 Medi 2024 |

Er mwyn gweld y drafodaeth bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod cliciwch y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 14:55.